

CYFARFOD	Y Cyngor
DYDDIAD	13 Mai 2021
AELODAU CABINET	Y Cynghorydd Dafydd Meurig a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan
TEITL	Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21
PWRPAS	Cyflwyno'r adroddiad er sylw Aelodau'r Cyngor
AWDUR	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol

1. Cefndir

- 1.1. Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- 1.2. Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at wella wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rheiny sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'r unigolion a'r gofawyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth. O dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am gyflwyno safonau lles.
- 1.3. Gofynnir i mi fel Cyfarwyddwr ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n effeithio ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, cynaliadwy, o'r safon uchaf, gan fynegi fy marn yn yr adroddiad a'i gyflwyno i'r Cyngor.
- 1.4. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw wersi a ddysgwyd, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn egluro sut y gwnaethom asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio ein gwasanaethau a'n darpariaeth gofal.
- 1.5. Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ddigynsail ar flwyddyn ariannol 2020/21. Er gwaetha'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig, rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn a fu wedi bod yn gadarnhaol unwaith eto. Fodd bynnag, wrth i ni ganolbwyntio ar ymdopi gydag argyfwng Covid-19, mae rhai blaenoriaethau yr oedd gennym wedi llithro rhywfaint neu wedi eu rhoi o'r neilltu am y tro. O ganlyniad i hynny, mae fy adroddiad eleni yn canolbwyntio ar y ffordd yr ydym wedi ymateb i'r pandemig a'r modd yr ydym wedi parhau i gynnal a darparu ein gwasanaethau

hanfodol a gofalu am ein trigolion bregus, yn ogystal â datblygu a darparu gwasanaethau newydd a thrawsffurfio.

- 1.6. Mae perfformiad y gwasanaethau perthnasol yn cael eu herio yn unol â threfniadau perfformiad mewnol y Cyngor ac mae adroddiadau ar y perfformiad hwn yn cael eu cyflwyno gan yr aelodau Cabinet perthnasol yn rheolaidd. Bydd trosolwg o berfformiad y gwasanaethau am y flwyddyn gyfan hefyd ar gael yn Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2020/21.

2. Argymhelliad

- 2.1. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwyr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.

3. Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r cyfnod hynod o heriol a brofwyd gan y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

Pennaeth Cyllid:

Nodaf fod adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr yn gosod allan blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2021/22. Disgwylir bod yr adrannau gofal Oedolion a Phlant yn anelu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn o fewn eu hadnoddau presennol, drwy gyd-weithio ar weithgareddau gyda gwahanol adrannau a chyrrff allanol, a drwy sicrhau ariannu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn golygu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cyngor; bydd aelodau yn cofio rhodddwyd sylw priodol i hynny wrth osod cyllideb 2021/22.